# OWEN, WILLIAM ('Philotheoros '; 1789 - 1841); pregethwr gyda'r Bedyddwyr, ysgolfeistr, ac almanaciwr

**Enw:** William Owen
**Ffugenw:** Philotheoros
**Dyddiad geni:** 1789
**Dyddiad marw:** 1841
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** pregethwr gyda'r Bedyddwyr, ysgolfeistr, ac almanaciwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd; Gwyddoniaeth a Mathemateg
**Awdur:** Benjamin George Owens

Ganwyd yn 1789. Brodor o ardal Abergwaun, eithr cysylltir ei enw hefyd â Threletert, a dywedir ei godi i bregethu yn Llangloffan, ond yn Aberteifi y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, yn cadw ysgol. Yr oedd yn ŵr hyddysg mewn amryw o bynciau - yn ieithydd, llenor, seryddwr, a bardd yn y mesurau rhyddion. Bu'n olygydd almanac a gyhoeddid yn Aberteifi yn y 30'au; ond ei ddiddordeb mwyaf adnabyddus, fel yr awgryma ei ffugenw, oedd llunio ac ateb posau mathemategol yn y Wasg. Bu farw, yn hen lanc, 15 Hydref 1841, yn 52 oed, a'i gladdu yn Siloam, y Ferwig.

## Awdur

**Benjamin George Owens**

## Ffynonellau

R. Edwards, *Hanes Llangloffan*, 1932, 59

R. Edwards, *Hanes Bethania, Aberteifi* (Llandysul 1947), 1947, 73

David Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (1839), 189, 193

*Seren Gomer*, 1841, 380; 1858, 267-8

*Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1942, 32

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360923

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Owens, B. G., (1953). OWEN, WILLIAM ('Philotheoros '; 1789 - 1841); pregethwr gyda'r Bedyddwyr, ysgolfeistr, ac almanaciwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-OWEN-WIL-1789

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government